Asiantaeth Ffilm Cymru

Penodi Aelodau'r Bwrdd

Fel yr unig asiantaeth ffilm strategol yng Nghymru 'rydym ar hyn o bryd yn ymwneud â 7 o ffilmiau rhyngwladol ac angen eich cymorth 'nawr!

Ein tasg yw sicrhau fod agweddau economaidd, diwylliannol ac addysgol ffilm yn cael eu cynrychioli'n effeithiol yng Nghymru, Prydain a'r byd.

Wedi ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Busnes Creadigol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a'r UK Film Council, mae Asiantaeth Ffilm Cymru'n dymuno gwahodd ceisiadau am aelodau ar gyfer y Bwrdd.

Ynglŷn â'r Swyddogaethau

Mae'r swyddogaethau'n dwyn amrediad cyflawn o gyfrifoldebau sy'n ymwneud â ffurfio dyfodol Asiantaeth Ffilm Cymru. Felly dylai ymgeiswyr fedru cynnig:

- Profiad arbenigol ledled y marchnadoedd cynhyrchu ffilm rhyngwladol
- Gwybodaeth sylweddol o holl elfennau Datblygu a Chynhyrchu Ffilm
- Y gallu i hybu'r diwydiant Ffilm Cymreig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi cyhoeddus, a gweithgareddau Asiantaeth Ffilm Cymru yn ogystal ag ymrwymiad i'n hamcanion

Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd chwarterol yng Nghaerdydd, a disgwylir i chi ymrwymo i gyfnod o dair blynedd. Nid oes tâl am y gwaith hwn, ond gellir hawlio costau.

Sut i Wneud Cais
Byddwch mor garedig â gyrru cais ysgrifenedig at Peter Edwards, Cadeirydd, Asiantaeth Ffilm Cymru, Ystafell 7, 33-35 Stryd Gorllewin Bute Street, Caerdydd. CF10 5LH.

Ff: 029 20 467480 E: **pa@filmagencywales.com**

G: **www.filmagencywales.com**

Dyddiad cau
Dylid derbyn llythyr byr yn datgan diddordeb a CV erbyn 4ydd Chwefror 2008.